

Jeremy Miles AS/MS

Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

16 Tachwedd 2020

Annwyl David,

Yn dilyn fy llythyr ar 9 Tachwedd, gweler yn amgaeedig fy atebion i'ch cwestiynau am y Cytundeb Partneriaeth Economaidd Gynhwysfawr (CEPA) rhwng y DU a Siapan sy'n seiliedig ar y Cytundeb Partneriaeth Economaidd (EPA) rhwng yr UE a Siapan y mae'r DU yn rhan ohono ar hyn o bryd.

Cyfeirir at CEPA fel y cytundeb 'dilydol plws' gan yr oedd y ddwy ochr am iddo gadw'r trefniadau masnachu ffafriol a sicrhawyd gan yr EPA ar ôl 1 Ionawr 2021 ond gan geisio yr un pryd welliannau mewn meysydd o fudd i'r ddwy wlad. Ein blaenoriaeth bennaf oedd sicrhau bod y cytundeb yn cadw o leiaf yr hyn a geid trwy'r EPA ac rwy'n falch iawn inni lwyddo yn hynny o beth, gyda rhai darpariaethau newydd yn y meysydd data a digidol.

Fel y gwyddoch, rydym yn bwriadu cyhoeddi ein hasesiad o CEPA, ac rydym wrthi'n llunio'r fersiwn derfynol o'r adroddiad hwn. Rwy'n bwriadu rhannu hwn â chi yr wythnos hon, cyn iddo gael ei gyhoeddi.

Yn gywir,

Jeremy Miles AS/MS

Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.